SP Energy Networks

Gwybodaeth bwysig

# Paratoi ar gyfer toriad pŵer



**POWER CUT? CALL 105**

# Rhoi gwybod am doriad pŵer neu argyfwng

I roi gwybod am doriad pŵer neu ddifrod i is-orsafoedd neu linellau pŵer trydan, ffoniwch y rhif rhadffôn cenedlaethol, sef **105**.

Neu gallwch ddefnyddio ein cyfleuster ar-lein i roi gwybod am ddiffygion ac argyfyngau, drwy wefan SP Energy Networks.

Os oes ceblau ar y llawr neu'n agos at y llawr, cadwch yn glir. Os ydyn nhw ar ffyrdd neu ar lwybrau troed, **ffoniwch 999**. Ffoniwch ni ar frys os gwelwch chi unrhyw offer, llinellau neu is-orsafoedd sydd wedi'u difrodi ac fe wnawn ni sicrhau bod yr offer yn ddiogel.

spenergynetworks.co.uk

**Mae'r Gwasanaeth Ymholiadau am Ddiogelwch Cyflenwadau yn wasanaeth rhad ac am ddim i bob cwsmer ac mae ar gael bob awr o'r dydd, bob diwrnod o'r flwyddyn.**

### Pwy ydyn ni

Ni yw SP Energy Networks, Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu yng Nghanol a De'r Alban, Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd a Chanolbarth Cymru a Gogledd Swydd Amwythig. Mae ein timau'n sicrhau bod y pŵer yn llifo i dros 3.5 miliwn o gartrefi a busnesau. Does dim ots i bwy rydych chi'n talu eich bil, os bydd toriad pŵer, ffoniwch ni am ddim ar **105**.

### Pan fyddwn ni'n ymweld â'ch eiddo

Weithiau, efallai y bydd angen i ni ymweld â'ch cartref i archwilio neu gynnal a chadw ein hoffer. Bydd ymweliadau'n cael eu gwneud naill ai gan un o'n staff neu gan gontractwr sy'n gweithio i ni. Mae ein staff wedi'u hyfforddi'n llawn a byddan nhw'n gallu rhoi cyngor a manylion cyswllt os bydd eu hangen arnoch chi. Mae ein holl weithwyr yn cario cardiau adnabod sy'n cynnwys enw eu cwmni, eu henw eu hunain a llun lliw. Pan fydd yn bosibl, bydd logo SP Energy Networks neu'r contractwr i'w weld ar gerbydau a dillad hefyd.

Bydd unrhyw weithiwr sy'n ymweld â'ch cartref yn fodlon egluro pwrpas ei ymweliad. Os ydych chi'n ansicr a yw ymwelydd yn dweud y gwir am bwy ydyw, dilynwch y camau hyn:

- Siaradwch â'r ymwelydd drwy'r drws.
- Cymerwch eich amser. Ni fydd ein cynrychiolwyr byth yn eich rhuthro nac ar frys i gael mynediad i'ch eiddo.
- Gofynnwch i'r ymwelydd basio ei gerdyn adnabod drwy'r blwch llythyrau neu ei ddangos yn y ffenestr.
- Cofnodwch enw'r ymwelydd, ac i gadarnhau pwy yw eich ymwelydd, ffoniwch ni ar **0330 1010 444**.
- Os yw'n bosibl, rhowch y gadwyn ymlaen bob amser cyn agor y drws.
- Os nad ydych yn siŵr, peidiwch ag agor y drws.

Os hoffech chi gael cam diogelwch ychwanegol, gallwn ni gytuno ar gyfrinair gyda chi. Byddwn ni wedyn yn defnyddio'r cyfrinair hwn os bydd angen i ni ymweld â chi. I osod eich cyfrinair personol, cysylltwch â ni ar **0330 1010 444**.



# Ymunwch â'n Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth

Anaml y bydd toriadau pŵer, ond rydyn ni'n gwybod eu bod yn anoddach i rai cwsmeriaid nag eraill. Dyna pam ein bod ni'n cynnig cymorth a chefnogaeth ychwanegol i gwsmeriaid sy'n teimlo bod angen hynny arnyn nhw.

**Gallwch chi ymuno â'n Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth os:**

- Ydych chi dros 60 oed
- Oes gennych chi anghenion cyfathrebu arbennig
- Ydych chi'n dibynnu ar drydan ar gyfer gofal meddygol neu ofal cartref
- Oes gennych chi blentyn o dan 5 oed
- Oes gennych chi salwch cronig
- Neu os ydych chi'n teimlo bod angen ychydig o help ychwanegol arnoch chi
- Gallwch hefyd gofrestru os oes angen cymorth arnoch chi am gyfnod byr.

Ni fydd bod ar ein cofrestr o reidrwydd yn golygu y gallwn ni adfer eich pŵer yn gynt, ond byddwn ni'n ceisio cysylltu â chi os byddwn yn gwybod am broblem yn eich ardal.

Ar ôl i chi gofrestru, byddwn ni'n rhoi cyngor manwl i chi ar beth i'w wneud os bydd toriad pŵer, a beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni.

Ymunwch â'n Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth am ddim drwy ffonio
**0330 10 10 167,**
llenwi ffurflen gyflym ar ein gwefan neu anfon neges destun gyda'r geiriau
**PSR i 61999.**

# Rhannu data

Er mwyn eich cofrestru ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth bydd angen i ni gasglu a phrosesu data personol, fel enwau a manylion cyswllt y bobl hynny sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed (ee, pan fydd aelodau o'r teulu yn blant dan 5 oed neu'n oedolion dros 60 oed), yn ogystal â manylion yr hyn sy'n eu gwneud yn agored i niwed (gan gynnwys cyflyrau meddygol).

Rydyn ni wedi gwella'r cymorth rydyn ni'n ei ddarparu i gwsmeriaid agored i niwed sy'n cofrestru ar gyfer ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth, drwy ddiweddaru ein sail gyfreithlon dros rannu data, o'r amod Cydsyniad i'r amodau Buddiant Dilys a Buddiant Sylweddol i'r Cyhoedd.

Mae'r gwelliant hwn yn golygu ein bod ni'n rhannu gwybodaeth bwysig â Chyfleustodau eraill i sicrhau bod ein cwsmeriaid agored i niwed yn cael cymorth ychwanegol pan fydd rhywbeth yn effeithio ar y gwasanaethau hanfodol hyn.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu a sut rydyn ni'n prosesu eich data personol, ewch i:
**spenergynetworks.co.uk/pages/privacy.aspx**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am sut rydyn ni'n prosesu eich data, anfonwch e-bost i:
**DP@SPEnergynetworks.co.uk neu ffoniwch ni ar 0330 10 10 154.**



# Bod yn barod ar gyfer Stormydd a Thywydd Difrifol

## Sut i baratoi

1. Gwnewch yn siŵr bod unrhyw un yn eich cartref sydd angen cymorth ychwanegol wedi cofrestru ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth.
2. Gwnewch yn siŵr bod gennych chi fflachlamp wrth law gyda batris newydd.
3. Gwnewch yn siŵr bod gennych chi ffôn sydd ddim angen prif gyflenwad.
4. Cadwch eich ffôn symudol a'ch banc pŵer wedi'u gwefru'n llawn.

### Pwysig

Mae'n hollbwysig gwneud yn siŵr bod gennym ni eich manylion cyswllt cywir. Os oes gennym ni'r manylion hyn, gallwn ni ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl pan fydd toriad pŵer. Mae hefyd yn bwysig bod gennym eich manylion er mwyn i ni allu eich digolledu'n awtomatig o dan ein Safonau Gwasanaeth Gwarantedig, os bydd unrhyw iawndal yn ddyledus i chi.

Treuliwch ychydig funudau yn diweddaru eich manylion ar-lein:

**spenergynetworks.co.uk/UpdateYourDetails**

# Eich paratoi chi ar gyfer digwyddiadau eithafol

**Mae'n bosibl eich bod wedi gweld gwybodaeth ar y teledu ac yn y wasg yn ddiweddar am y senario bosibl, ond annhebygol, y bydd prinder ynni oherwydd y cyd-destun ynni presennol. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr eich bod yn cael cymaint o wybodaeth â phosib am y rheswm dros hynny, a beth fydd y sefyllfa os bydd hynny'n digwydd.**

Mae Gweithredwr System Drydan National Grid (NGESO) yn gyfrifol am gydbwyso'r cyflenwad a'r galw am ynni, ac am sicrhau bod digon o drydan yn cael ei gynhyrchu i bweru pob cartref a busnes yn y Deyrnas Unedig. Os bydd prinder mawr o nwy neu drydan, efallai y bydd NGESO yn cyfarwyddo SP Energy Networks a gweithredwyr rhwydweithiau eraill i gyflwyno toriadau pŵer brys. Yn y sefyllfa honno, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni weithredu ar gyfarwyddiadau National Grid a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

**Yr hyn y mae angen i chi ei wybod**
Mae toriadau pŵer brys yn annhebygol, ond os byddan nhw'n digwydd, fe allech chi golli pŵer am gyfnod o dair awr. Gallai hyn ddigwydd fwy nag unwaith, gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r sefyllfa. Ni fydd pawb yn cael toriad pŵer ar yr un pryd.

Byddan nhw'n cael eu gwasgaru ar draws y wlad drwy system rota er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl.

Mae'r wlad wedi'i rhannu'n 'flociau' llwythi, a fydd yn cael eu defnyddio i ffurfio'r system rota a fydd yn cael ei chyflwyno os bydd angen toriadau pŵer brys.

Os bydd rota toriadau pŵer brys yn cael ei chyflwyno, bydd y manylion yn cael eu cyhoeddi ar **powercut105.com/cy/**. Gallwch weld beth yw llythyren eich bloc chi drwy edrych ar eich bil trydan neu drwy nodi eich cod post ar y wefan hon.

Cofiwch, oherwydd natur frys y math yma o senario, efallai na fydd yn bosibl rhoi rhybudd i gwsmeriaid cyn y bydd unrhyw doriadau pŵer brys yn cael eu cyflwyno.

## Cwsmeriaid sy'n dibynnu'n feddygol ar drydan

Os ydych chi'n dibynnu ar drydan i bweru eich offer meddygol, dylech sicrhau bod offer a systemau wrth gefn wedi cael eu gwasanaethu a'u profi'n ddiweddar a'u bod yn gallu eich cefnogi drwy doriad pŵer o dair awr o leiaf.

Os oes gennych chi unrhyw bryderon neu os ydych chi'n ansicr beth fyddai'n digwydd i'ch offer pe bai toriad pŵer, dylech siarad â'ch darparwr gofal iechyd ar unwaith.

Byddem yn annog unrhyw un sy'n dibynnu'n feddygol ar drydan i sicrhau eu bod ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth (PSR).

Cofiwch, os bydd toriadau pŵer brys yn cael eu cyflwyno, bydd hyn yn effeithio ar bob cwsmer beth bynnag fo'i statws PSR.

Gan ddibynnu ar natur y digwyddiad, efallai y bydd angen cyflwyno cyfnodau treigl o doriadau pŵer am gyfnod o amser. Mae'n debygol na fydd gennych drydan am dair awr ar y tro, ond gallai hyn ddigwydd sawl gwaith gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r sefyllfa. Ni allwn ddarparu generaduron / pŵer wrth gefn i gwsmeriaid ar gyfer yr argyfyngau hyn, felly byddem yn annog pob cwsmer sy'n dibynnu'n feddygol ar drydan i wneud yn siŵr eich bod yn gwybod am ba hyd y bydd eich cyflenwad wrth gefn eich hun yn gweithio.Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
**spenergynetworks.co.uk/pages/a_caring_network_cymraeg.aspx**



## Ystyriaethau ar gyfer cwsmeriaid busnes

Rydyn ni'n gwerthfawrogi pwysigrwydd cyflenwad trydan dibynadwy i'ch busnes. Fodd bynnag, mae'n debygol iawn y bydd eich cyflenwad pŵer yn cael ei dorri yn ystod argyfwng trydan, ac felly mae'n bwysig eich bod mor barod â phosibl.

Mae gennym ni becyn cymorth i fusnesau i'ch helpu i baratoi ar gyfer toriadau pŵer. Mae'r pecyn ar gael ar ein gwefan yn:
**spenergynetworks.co.uk/businesswinterguide**



## Rhagor o wybodaeth

Os bydd National Grid yn penderfynu cyflwyno toriadau pŵer brys, bydd ymgyrchoedd cyfathrebu cenedlaethol yn cael eu cynnal, a bydd gwybodaeth ar gael ar:
**powercut105.com/cy**

Yn y cyfamser, gallwch chi gael rhagor o wybodaeth a chyngor diogelwch ar sut i baratoi ar gyfer toriad pŵer – gan gynnwys pecyn toriad pŵer – ar ein gwefan:
**spenergynetworks.co.uk/stormready**

## Cwsmeriaid â nam ar eu clyw

Defnyddiwch ein gwasanaeth cyfnewid testun. Rhifau Argyfwng a Diffygion:

Canolbarth a De'r Alban
**18001 0800 092 9290**

Glannau Mersi, Swydd Gaer, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig
**18001 0800 001 5400**

**Ymholiadau cyffredinol am gymorth:**

Canolbarth a De'r Alban, Glannau Mersi, Swydd Gaer, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig
**18001 0330 10 10 444**

## Cwsmeriaid â nam ar eu golwg

Os hoffech chi i unrhyw un o'n taflenni neu ddogfennau gael eu trosi i Braille neu destun mawr, ffoniwch ni ar:
**0330 10 10 167**

## Cyfieithwyr ar y pryd

Os oes angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd arnoch chi, gallwn ni ddarparu hyn drwy Language Line sydd ar gael bob awr o'r dydd dros y ffôn, ac sy'n cynnig gwasanaeth mewn dros 100 o ieithoedd. Cysylltwch â ni'n uniongyrchol i drefnu unrhyw un o'r gwasanaethau rhad ac am ddim hyn, drwy ffonio:
**0330 10 10 444.**

## Rhoi gwybod yn ysgrifenedig neu'n bersonol

I ysgrifennu atom ni: SP Energy Networks – Customer Service

**Swyddfa Canolbarth a De'r Alban:**
320 St Vincent St,
Glasgow G2 5AD

**Swyddfa Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig:**
3 Prenton Way,
Prenton CH43 3ET

Gallwch chi hefyd siarad â'n staff maes yn bersonol os hoffech chi drafod neu roi gwybod am unrhyw beth.

Mae'r holl wybodaeth ar y daflen hon i'w gweld ar ein gwefan hefyd. Mae'r ddogfen hon yn bodloni gofynion Amodau 8, 9 a 10 y Drwydded Dosbarthu i gyhoeddi Datganiad ar Ddiogelwch y Gwasanaeth Argyfwng Cyflenwadau.